# SL(6)024 - Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) (Diwygio) (Rhif 2) 2021

## Cefndir a diben

Mae’r Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Weinidogion Cymru yn unol â pharagraff 7 o Atodlen 4 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (**“Deddf 2018”**) ac maent yn diwygio Rheoliadau Iechyd Planhigion (Ffioedd) (Coedwigaeth) (Cymru) 2019 (**“Rheoliadau 2019”**).

Mae’r Rheoliadau yn darparu ar gyfer cynnydd yn y ffioedd sy’n daladwy i Weinidogion Cymru am wasanaethau mewn perthynas ag awdurdodiadau pasbortau planhigion a cheisiadau am dystysgrifau ffytoiechydol (gan gynnwys tystysgrifau ffytoiechydol ar gyfer ailallforio) i adlewyrchu cynnydd chwyddiannol o ran y gost o ddarparu’r gwasanaethau hynny ers cyflwyno’r ffioedd hynny.

Bydd y rheoliadau yn dod i rym ar 5 Awst 2021.

## Gweithdrefn

Negyddol.

Gwnaed y Rheoliadau gan Weinidogion Cymru cyn iddynt gael eu gosod gerbron y Senedd. Gall y Senedd ddirymu'r Gorchymyn cyn pen 40 diwrnod (ac eithrio unrhyw ddiwrnodau pan fydd y Senedd: (i) wedi'i diddymu, neu (ii) ar doriad sy’n fwy na phedwar diwrnod) o'r dyddiad y cafodd ei osod gerbron y Senedd.

## Materion technegol: craffu

Nodir y ddau bwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.2(v) – bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol.**

Mae Rheoliad 2(3) o'r Rheoliadau pwnc yn disodli Atodlen 4A i Reoliadau 2019. Yn unol â Rheoliad 3(5A) o Reoliadau 2019, mae Atodlen 4A yn rhagnodi ffioedd sy'n daladwy mewn cysylltiad â cheisiadau penodol am dystysgrif ffytoiechydol ar gyfer allforio (neu ailallforio).

1. Roedd Atodlen 4A (cyn cael ei diwygio gan y Rheoliadau hyn) yn cynnwys darpariaeth ar gyfer codi ffioedd ar gyfer, "*Archwilio neu brofi planhigion, cynhyrchion planhigion neu wrthrychau eraill a gweithgareddau cysylltiedig …*".
2. Fel y'i diwygiwyd gan y Rheoliadau pwnc, disodlir y disgrifiad hwnnw gan, "*Archwilio neu brofi pren, cynhyrchion pren, rhisgl neu beiriannau coedwigaeth a ddefnyddir a*

*gweithgareddau cysylltiedig....*".

Gofynnir i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw'r derminoleg sydd wedi'i diweddaru yn diwygio'r sail ar gyfer codi ffioedd yn unol ag Atodlen 4A. Os caiff y cwmpas ar gyfer codi ffioedd ei ddiwygio gan y Rheoliadau hyn, ymddengys fod y Rheoliadau yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gymeradwyo gadarnhaol ddrafft yn unol â pharagraff 1(8) o Atodlen 7 i Ddeddf 2018, fel y'i cymhwysir gan baragraff 12(3) o'r Atodlen honno.

## Rhinweddau: craffu

Nodir y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn:

**1. Rheol Sefydlog 21.3 (i) - ei fod yn codi tâl ar Gronfa Gyfunol Cymru neu ei fod yn cynnwys darpariaethau sy'n ei gwneud yn ofynnol i daliadau gael eu gwneud i'r Gronfa honno neu i unrhyw ran o'r llywodraeth neu i unrhyw awdurdod lleol neu gyhoeddus yn gydnabyddiaeth am unrhyw drwydded neu gydsyniad neu am unrhyw wasanaethau sydd i'w rhoi, neu ei fod yn rhagnodi swm unrhyw dâl neu daliad o'r fath.**

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer cynnydd yn y ffioedd a godir am wasanaethau fel y nodir uchod.

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Pwynt craffu technegol 1:

Mae Rheoliadau 2019 yn ymwneud â choedwigaeth fel isddosbarth ar wahân o blanhigion. Mae'r diwygiad yn darparu rhagor o eglurder a chysondeb â fersiwn Llywodraeth Lloegr o'r rheoliadau hyn ond nid yw'n diwygio'r sail y codir ffioedd arni mewn unrhyw ffordd. Nid yw'r diwygiad yn peri unrhyw newid o ran polisi ac mae'r effaith gyfreithiol yn parhau yr un fath ag o'r blaen.

Nodir y ffioedd ar gyfer gwiriadau cyfatebol ar blanhigion yn gyffredinol yn Atodlen 4A i Reoliadau Iechyd Planhigion etc. (Ffioedd) (Cymru) 2018.

## Trafodaeth y Pwyllgor

Trafododd y Pwyllgor yr offeryn gydag ymateb y Llywodraeth yn ei gyfarfod ar 13 Medi 2021 ac mae'n cyflwyno adroddiad i'r Senedd yn unol â'r pwyntiau adrodd uchod.